Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**Teitl:** **Cyllideb Llywodraeth y DU ar 22 Mehefin 2010**

**Dyddiad:** **23 Mehefin 2010**

**Gan:** **Jane Hutt, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb**

Ddoe, cyhoeddodd Llywodraeth newydd y Deyrnas Unedig ei Chyllideb gyntaf. Cyfarfu Cabinet Llywodraeth y Cynulliad y bore yma i drafod ei goblygiadau i Gymru.

Mae Llywodraeth y DU wedi sôn llawer am ei hagenda o 'barch' ar gyfer cydweithio â'r Cenhedloedd Datganoledig. Fodd bynnag, er bod y Gyllideb yn cyfeirio'n benodol at anghenion yr Alban a Gogledd Iwerddon, nid oes unrhyw gydnabyddiaeth o amgylchiadau ac anghenion penodol Cymru. Nid yw hynny'n dangos parch at Gymru, ac nid yw'n deg i bobl Cymru.

Bydd mesurau'r Gyllideb yn cael fwy o effaith ar Gymru nag ar unrhyw genedl arall. Mae hynny, yn anad dim, oherwydd bod Cymru eisoes ar ei cholled o £300 miliwn y flwyddyn, fel y dangosodd Comisiwn annibynnol Holtham inni. Rhaid i Lywodraeth y DU fynd ati yn awr i roi casgliadau Comisiwn Holtham ar waith, a sefydlu terfyn isaf cyn cynnal Adolygiad o Wariant er mwyn mynd i'r afael â'r tangyllido.

Nid yw'r Gyllideb yn cynnwys unrhyw gynlluniau gwario manwl ar gyfer y DU ar gyfer y cyfnod ar ôl 2010-11. Cadarnhaodd y Canghellor y bydd canlyniadau'r Adolygiad o Wariant yn cael eu cyhoeddi ar 20 Hydref. Yn y cyfamser, nid yw'n eglur o hyd faint fydd cyllideb Cymru ar gyfer y cyfnod hyd 2014-15.

Mae'r mesurau a nodwyd ddoe gan Lywodraeth y DU yn rhoi'r adferiad bregus yr ydym eisoes wedi'i weld yn y fantol. Yn seiliedig ar ragolygon Swyddfa Cyfrifoldeb y Gyllideb, bydd cynlluniau'r Llywodraeth yn ergyd drom i'r economi; byddant yn cwtogi ar dwf ac yn cynyddu diweithdra.

Rydym hefyd yn pryderu nad yw Llywodraeth y DU wedi dangos sut y bydd yn annog twf i helpu i fynd i'r afael â'r diffyg, a'n harwain allan o'r dirwasgiad yn llwyr. Mae angen mynd ati mewn modd sy'n ystyried y tymor hwy yng Nghymru. Bydd angen cyfyngu i'r eithaf ar yr effaith ar swyddi a gwasanaethau, a sicrhau

dyfodol sefydlog a chadarn. Ni fydd sector cyhoeddus llai o faint yn gwarantu sector preifat mwy o faint.

Ym marn Llywodraeth Cynulliad Cymru, barn sy'n cael ei rannu gan lawer o economegwyr ac arweinwyr busnes, gallai torri'r diffyg yn rhy llym ac yn rhy sydyn niweidio'r economi yn ogystal â gwasanaethau cyhoeddus. Mae angen lleihau'r diffyg, a bydd Cymru yn chwarae ei rhan i wneud hynny. Mewn gwirionedd, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi arwain y ffordd yn y DU a dechreuodd gynllunio ar gyfer y cyfnodau anodd hyn dros flwyddyn yn ôl. Mae Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi Cymru yn datblygu rhaglen genedlaethol i drawsnewid effeithlonrwydd gweithredol, ysgogi arloesed wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, a hyrwyddo cydweithio. Mae gweithredu mewn ffordd arloesol a chydweithredol fel hyn yn hanfodol ar gyfer goroesi'r blynyddoedd sydd i ddod, heb niweidio'r gwasanaethau cyhoeddus y mae cymaint o bobl Cymru yn dibynnu arnynt. Ond, dylid lleihau'r diffyg ar raddfa nad yw'n bygwth yr adferiad economaidd, a heb achosi niwed mawr i wasanaethau cyhoeddus.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn pryderu'n fawr mai unigolion tlotaf a mwyaf agored i niwed ein cymdeithas a fydd yn cael eu heffeithio fwyaf gan y Gyllideb hon. Rydym yn poeni hefyd, drwy dorri'n sylweddol ar wariant a chynyddu treth, bod y Gyllideb yn cymryd cryn risg o ran yr adferiad economaidd.

Ni welwyd Cyllideb o'r fath o'r blaen, sy'n cynnwys:

- cynnydd mewn trethi o fwy na £8 biliwn erbyn 2014-15;
- toriadau i fudd-daliadau o fwy nag £11 biliwn erbyn 2014-15;
- toriadau pellach i wariant cyhoeddus o fwy nag £20 biliwn erbyn 2014-15.

Mae hwn yn newyddion enbyd i'r rhan fwyaf o bobl ledled y DU, ac yn arbennig i bobl Cymru.

Yn sgil yr ansicrwydd sy'n parhau ynghylch bwriad Llywodraeth y DU, bu Llywodraeth y Cynulliad yn cynllunio ar sail rhagdybiaethau gochelgar. Mae angen mwy o waith, ond yn ôl y dadansoddiadau cyntaf o ffigurau ddoe mae'r rhagdybiaethau cynllunio hynny yn ddibynadwy o hyd. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft cyn gynted â phosibl wedi i ganlyniad yr Adolygiad o Wariant ddod yn hysbys, ac rwy'n gobeithio cytuno ar amserlen fanwl ar gyfer y broses graffu gyda Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid cyn toriad yr haf.

Roedd Cyllideb ddoe yn ategu'r toriadau gwerth £6.2 biliwn a wnaed i gyllidebau 2010-11. Fel y mae Aelodau'r Cynulliad yn gwybod eisoes, cynigiodd y Prif Weinidog gyfle inni ohirio rhywfaint o 'gyfran' Cymru, neu'r 'gyfran' gyfan, o'r toriadau hynny tan y flwyddyn nesaf. Cyn penderfynu sut i fynd ati, roedd angen mwy o eglurhad ynghylch tri maes arnom oddi wrth y Trysorlys.

Yn gyntaf, roedd angen eglurhad ynghylch beth yn union yw maint y toriadau; faint sy'n refeniw a faint sy'n gyfalaf. Erbyn hyn, mae'r Trysorlys wedi unioni ei amryfusedd mewn perthynas â'r toriad a oedd yn codi o'r toriadau i gyllideb y Gêmau Olympaidd. Mae hefyd wedi adolygu rhai o'r symiau canlyniadol cadarnhaol a oedd yn deillio o arbedion a gafodd eu hailddefnyddio. Maent

hefyd, erbyn hyn, wedi darparu'r ffigurau o ran refeniw a chyfalaf: cyfalaf yw tua 1/3 y toriadau.

Yn ail, roedd angen eglurhad arnom o ran yr hyblygrwydd y gallwn ei ddisgwyl. Roedd angen eglurhad o'n sefyllfa o ran Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn (EYF); a fyddwn ni'n cael y swm y cytunwyd arno eisoes ar gyfer eleni, ac a fyddwn ni'n cael manteisio'n llawn ar EYF mewn blynyddoedd i ddod. Ysgrifennais at y Prif Ysgrifennydd am y mater yr wythnos ddiwethaf, ac rwyf wedi gofyn am sicrwydd erbyn diwedd y mis.

Yn drydydd, roedd angen gwybod arnom a fyddai Cyllideb y Llywodraeth newydd yn effeithio'n sylweddol ar ein rhagdybiaethau cynllunio. Fel y soniwyd uchod, mae angen mwy o waith ar y mater ond mae'r asesiad cychwynnol yn awgrymu bod ein rhagdybiaethau yn ddibynadwy o hyd.

Yn unol â'r cynnydd hwn, rwy'n hyderus y byddaf yn gallu cadarnhau, cyn diwedd y sesiwn hon, sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r toriadau a fydd yn cael eu gorfodi ar y Cynulliad gan Lywodraeth y DU yn 2010-11.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn croesawu elfennau o becyn cyffredinol y Gyllideb. Bydd mwy nag 1 miliwn o drethdalwyr ar y gyfradd sylfaenol yng Nghymru yn elwa yn sgil y cynnydd o £1,000 i'r lwfans personol cyn bod rhaid talu Treth Incwm. Gallai Cymru fanteisio yn sgil yr arbedion treth arfaethedig i fusnesau ar gyfer creu swyddi y tu allan i Lundain a De-ddwyrain Lloegr. Rydym hefyd yn croesawu'r penderfyniad i beidio â gwneud mwy o doriadau na chynlluniau llym y Llywodraeth flaenorol i gyllidebau cyfalaf. Mae buddsoddiad cyfalaf parhaus yn allweddol i gefnogi'r adferiad ac i drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus.